

# Cofnodion



## Cabinet

---

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), J Hughes, Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman and D Davies

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

### 1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Ni dderbyniwyd yr un.

### 2 Datganiadau o ddiddordeb

Ni dderbyniwyd yr un.

### 3 Cofnodion y Cyfarfod Diweddfaf

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at Eitem 3: Adroddiad Blynyddol Corfforaethol, tudalen 6 y paragraff olaf lle'r hyn a ddywedodd y Cyngorydd Cockeram oedd 'disappointed' nid 'a disappointed'. Eitem 5: Cynllun Cydraddoldeb Strategol, tudalen 9, dylai hyn ddarllen 'contact' tracing nid 'contract' tracing.

Derbyniwyd cofnodion 10 Tachwedd fel rhai cywir yn amodol ar yr uchod.

### 4 Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y Cyfnod hyd at 30 Medi 2021

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud wrth ei chydweithwyr yn y Cabinet mai adroddiad cydymffurfio oedd hwn i gadarnhau fod gweithgareddau'r Trysorlys yn hanner cyntaf 2021-22 yn unol â'r Strategaeth Trysorlys a ystyriwyd ac a osodwyd gan yr Aelodau. Yr oedd yr adroddiad yn cymharu gweithgaredd gyda'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn 2020-21 i nodi'r achosion.

Yr oedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth a ganlyn:

- Atgoffa am y strategaeth trysorlys y cytunwyd arni
- Manylion gweithgaredd benthyca a buddsoddi
- Gwybodaeth am ystyriaethau economaidd ehangach fel y pandemig a'r hinsawdd economaidd

- Cyfoesiad am y cod Trysorlys Rhyngwladol ar gyllido buddsoddi masnachol

Daeth yr adroddiad i ben gydag archwiliad o weithgaredd yn erbyn perfformiad, gan gadarnhau cydymffurfio.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'i gadarnhau ganddynt i fynd ymlaen i'w ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor yn y pen draw.

Fel ar 30 Medi 2021 gostyngodd lefel y benthycia o £9.1m ar lefelau 2020-21 i £144m.

Yr oedd y gostyngiad hwn oherwydd:

- Ad-dalu benthyciad PWLB a aeddfedodd yn hanner cyntaf 2021/22. Fel ar 30 Medi nid oedd angen benthycia pellach i ail-gyflenwi'r benthyciad hwn. Efallai y bydd angen benthycia dros dro cyn 31 Mawrth 2022.
- Yr oedd gan y Cyngor nifer o fenthyciadau oedd yn Rhandaliadau Cyfartal o'r Prifswm (EIP), oedd yn ad-dalu'r prifswm dros einioes y benthyciad, gyda'r llog cysylltiedig â'r benthyciad yn gostwng wrth i'r prifswm leihau.
- Cynyddodd lefel y buddsoddiadau hefyd o £4.1m i £28.9m, oedd yn ostyngiad yn y benthycia net o £13.3m yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol i £115.1m.

Cynhwysir yn ffigwr y buddsoddiad £13.9m a ddelir fel arian parod. Yr oedd hyn tua £6m yn llai na'r swm ar ddiwedd y flwyddyn, ond oherwydd y pandemig, yr oedd yr Awdurdod yn dal i gadw lefelau uwch na'r hyn oedd yn normal o arian parod fel y gall fod ar gael ar rybudd byr iawn i dalu am unrhyw alw annisgwyl am y llif arian.

Ar hyn o bryd, nid oedd llawer o alw am fenthycia byr iawn yn y farchnad, ac ym mis Medi yr oedd cyfraddau ar adneuo is na 14 diwrnod gyda'r Cyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) yn dal yn isel iawn ar 0.01%. Mae gan yr Awdurdod fuddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill o £15m gyda chyfraddau llog sydd fymryn yn well, ond yn dal yn isel. Rhagwelir y bydd y buddsoddiadau yn gostwng yn ystod 2021/22 fel dewis arall yn lle benthycia hyd nes i ni gyrraedd y balans o £10m, a fyddai'n parhau wedi ei fuddsoddi er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol a Deilliannau (MiFIDII).

O ganlyniad i hyn, ni fydd angen benthycia tymor-hir o'r newydd yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, ond yr ydym yn rhagweld y bydd angen i'r Cyngor gymryd benthyciadau ychwanegol yn y tymor byr am weddill y flwyddyn er mwyn talu am weithgaredd llif arian normal o ddydd i ddydd, er, gyda'r rhagolygon gwariant cyfalaf cyfredol, y disgwyl yw na fyddai unrhyw ofyniad penodol i fenthycia dros y tymor hir yn y flwyddyn ariannol hon. Efallai y bydd angen ystyried benthycia allanol er mwyn rheoli risg o du cyfraddau llog, a rheidwydd benthycia tymor-hwy y Cyngor.

Mae'r Awdurdod wedi mesur a rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheoli trysorlys gan ddefnyddio gwahanol ddangosyddion, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'r Dangosyddion Cynghorus a osodwyd ar gyfer 2021/22.

### **Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn nodi'r adroddiad ar weithgareddau rheoli trysorlys am y cyfnod hyd at 30 Medi 2021 a rhoddodd sylwadau i'r Cyngor.

## **5 Cofrestr Risg Corfforaethol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar Bolisi Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, oedd yn galluogi'r weinyddiaeth a swyddogion i nodi, rheoli a monitro yn effeithiol y risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyrraedd ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter Dau hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor ym mis Ionawr (2022) i adolygu proses rheoli risg a threfniadau llywodraethiant y Cyngor.

Ar ddiwedd chwarter dau, yr oedd gan y Cyngor 46 risg wedi eu cofnodi ar draws wyth maes gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny y tybiwyd eu bod yn fwyaf arwyddocaol i gyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i wasanaethau eu rhoi ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i'w monitro.

Ar ddiwedd chwarter dau, cofnodwyd 18 risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol:

- Unarddeg Risg Ddifrifol (15 i 25);
- Pum Risg Fawr (7 i 14);
- Un Risg Ganolig (4 i 6); ac
- Un Risg Isel (1 i 3).

#### Newid yng Nghyfeiriad Sgoriau Risg

O gymharu â chwarter un, arhosodd 13 risg ar yr un sgôr risg gyda phedair risg yn cynyddu ac un sgôr risg yn gostwng.

Yn y chwarter olaf, yr oedd cyfradd achosion Covid wedi cynyddu, gyda llacio cyfyngiadau. Yr oedd llwyddiant y rhaglen frechu wedi lliniaru'r salwch mwyaf difrifol mewn ysbytai, ond mae cyfraddau heintiad uchel wedi cael effaith ar lefelau staffio a phresenoldeb mewn ysgolion.

Yr oedd ansicrwydd bellach gydag amrywiolyn newydd Omicron, a bydd yn rhaid i drigolion a'r Cyngor ddal i fod yn wyladwrus dros gyfnod y gaeaf.

Gwelodd Gofal Cymdeithasol Oedolion yng Nghasnewydd fwy o alw am ei wasanaethau, ac yr oedd hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i wneud y ddarpariaeth angenrheidiol.

Yng Nghasnewydd a Chymru yn gyffredinol, yr oedd y sector gofal cymdeithasol yn cael trafferth recriwtio a chadw staff. Yr oedd llawer o swyddi gwag, ac yr oedd yr holl ddarparwyr gofal yn cael anhawster denu pobl o'r newydd, tra bod y staff presennol yn cael eu denu i sectorau eraill gyda chyflog gwell a chymhellion ariannol.

Yr oedd y Cyngor yn rhan o drafodaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y pecynnau gofal yr oedd arnynt eu hangen ac i fynd i'r afael â materion recriwtio a swyddi gwag.

Yn dilyn COP26, bu mwy o bwyslais ar genhedloedd i ddad-garboneidido a lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Cynyddodd y sgôr risg i adlewyrchu mwy o debygolrwydd y byddau tymereddau'n codi ledled y byd.

Yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo i leihau ei allyriadau carbon i sero net carbon erbyn 2030, ac yr oedd wedi cychwyn ar hyn eisoes. Byddai angen i'r Cyngor wneud mwy i wireddu hyn nid yn unig i'r Cyngor ei hun ond ar draws y ddinas.

Drafftiodd y Cyngor gynllun clir am y pum mlynedd nesaf o ran y camau y bydd angen eu cymryd i gyrraedd y targed hwn. Yr oedd y Cynllun yn destun ymgynghori a byddai'n cael ei lansio yn gynnar yn 2022.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Cyngor Casnewydd argyfwng ecolegol a hinsawdd oedd yn cydnabod yr angen i warchod amgylcheddau lleol Casnewydd a lleihau allyriadau carbon ledled y ddinas. Byddai'r cynnig yn sicrhau y byddai pob penderfyniad a pholisi yn y dyfodol a wnaed gan Gyngor Casnewydd yn cael eu hintegreiddio ar draws gweithgareddau'r Cyngor, a byddai'r Cyngor yn arwain trwy esiampl gan weithio mewn partneriaeth.

Yn y chwarter olaf, bu effaith economaidd eang oedd yn effeithio ar gyflwyno gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Gwelwyd hyn amlycaf mewn swyddi gwag i yrwyr HGV a staff gofal cymdeithasol.

Yr oedd trigolion a busnesau hefyd yn gweld cynnydd yng nghost nwyddau a gwasanaethau, ac yr oedd hyn yn effeithio ar gyflenwad nwyddau.

Cynhaliodd y Cyngor hunanasesiad o Ddiogelu, oedd yn nodi'r arferion da oedd yn digwydd yn y sefydliad.

Gyda'r hunanasesiad hwn, yr oedd gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o lle oedd angen gwella, a chynnal arferion da.

Canlyniad hyn oedd gostwng y sgôr risg gyffredinol i bedwar.

### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Cockeram am y rhan hwnnw o gyflwyniad yr Arweinydd a grybwyllodd y pwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda swyddi gwag a chyfraddau tâl. Dywedodd yr Aelod Cabinet y bu mewn cyfarfod o'r Bartneriaeth Ranbarthol ddoe lle penderfynwyd na allent aros i'r Llywodraeth wneud y trefniadau angenrheidiol i gynyddu cyfraddau tâl, felly trafododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol godi cyfraddau tâl i ofal cartref fel rhanbarth. Byddai gwneud hyn trwy wario £1M yn golygu na fyddai cyflogau ond yn codi o £1, ac fe gymerai lawer o arian i ddod â'u tâl i fyny i lefel y cyflog byw. Nid oedd hyn yn llawer o arian i'r rhanbarth, ond y teimlad oedd y dylid darparu'r £1.8M o arian cynllun y gaef i staff gofal cartref.
- Dywedodd y Cynghorydd Jeavons y byddai clefyd marwolaeth yr ynn yn newid tirwedd y ddinas dros y misoedd i ddod oherwydd y perygl i'r cyhoedd ac i adeiladau. Er hynny, byddai rhaglen o blannu coed newydd yn digwydd.
- Manteisiodd y Cynghorydd Hughes ar y cyfle i atgoffa'r cyhoedd fod y drafft o gynllun newid hinsawdd yn destun ymgynghori tan ddiwedd Rhagfyr 2021 a bod yr holl fanylion ar wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd.
- Yr oedd y Cynghorydd Davies eisiau dweud wrth gydweithwyr lle'r oedd y Cyngor gyda statws Cerpyn Coch yng nghyswllt y galw am gefnogaeth a darpariaeth ADY ac AAA. Yr oedd y Cyngor yn dal i aros am ganllawiau gan LIC dan Ddeddf ADY newydd. Bu oedi oherwydd y pandemig ac yr oedd swyddogion a'r Aelod Cabinet wedi lleisio pryderon wrth CLILC ynghylch y blaenoriaethau a'r darpariaethau o ran cyllid fel y gallai'r Gwasanaethau addysg symud ymlaen a dod allan o statws Cerpyn Coch. Yr oedd cyllidebau ysgolion yn awr ar oren, ac yr oedd yr aelod Cabinet yn falch o adrodd mai dim ond tair ysgol oedd a chyllideb ddiffyg, a bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r ysgolion hynny i sicrhau bod cefnogaeth ar gael a bod cyllidebau yn cael eu rheoli.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at y ffaith fod achosion covid yn cynyddu, ac yr oedd am sicrhau'r cyhoedd fod modd galw ar y Cyngor i roi cefnogaeth.
- Soniodd y Cynghorydd Mayer fod seibr-ddiogelwch yn dal ar goch oherwydd, yn anffodus, y bydd pobl yn dal i allu dod o hyd i ffyrdd o gyrchu data. Yr oedd yr asedau hefyd ar goch, ac y mae hyn yn fater o bwys y mae'n rhaid i ni ddelio ag ef: yr oedd yn rhan o'r normal newydd wrth i'r cyngor geisio rhesymoli ei wasanaethau.
- Awgrymodd y Cynghorydd Truman fod ansicrwydd mawr ynghylch blaengynllunio oherwydd yr amrywiolyn newydd, ond fod angen i ni gynllunio yn iawn. Hefyd, yr oedd Brexit yn broblem, gyda phrinder gyrwyr HGV, yr economi, costau ynni a chostau cyflogaeth, ond byddai'r cyngor yn ateb yr heriau hynny.

### **Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol a pharhau i fonitro'r risgiau hyn a'r cynnydd ar gamau a gymerir i ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad.

## 6 Archwilio Cymru - Archwiliad o Dystysgrif Cydymffurfiaeth Cyngor Dinas Casnewydd

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud wrth gydweithwyr fod Archwilio Cymru yn un o gyrff rheoleiddio allanol statudol y Cyngor oedd yn archwiliol cyfrifon y Cyngor ac yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi gwerth wrth gyflwyno ei wasanaethau.

Fel rhan o Fesur Llywodraeth Leol 2009, yr oedd gofyn i Archwilio Cymru gyhoeddi tystysgrif cydymffurfio i ddangos fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau dan y Mesur.

Gan fod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol Corfforaethol yn 2020/21 ar ei gynnydd yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol a pherfformiad, cyhoeddodd Archwilio Cymru y Dystysgrif Cydymffurfio. Yr oedd copiâu o'r Dystysgrif wedi eu cynnwys yn yr adroddiad er gwybodaeth, yn Gymraeg a Saesneg.

### **Penderfyniad:**

Nododd y Cabinet ganlyniad cadarnhaol y Dystysgrif Cydymffurfio o ran cwrdd â'i ddyletswydd statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## 7 Adroddiad Arferol Newydd

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud bod yn rhaid i staff, aelodau etholedig a'r cyhoedd ymaddasu i'r pandemig a'i bod yn debygol na fyddwn fyth yn dychwelyd i'r ffordd yr oedd pethau cyn Covid-19. Byddai staff ac aelodau etholedig yn cael cyfle i wneud mwy o ddefnydd o'r Ganolfan Ddinesig pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny. Yr oedd canllaw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn glir – dylai'r sawl sy'n gallu gweithio o gartref wneud hynny.

Yr oedd y Cabinet eisoes wedi derbyn adroddiad am y Normal Newydd, ac wedi gofyn am i fwy o waith gael ei wneud. Heddiw, yr oedd yr adroddiad dilynol yn gofyn am gyfres o benderfyniadau er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yr oedd Nod Adfer Strategol 3 ein Strategaeth Adfer wedi Covid y cytunwyd arno gan y Cabinet yn canolbwyntio ar Gynnal gweithlu Diogel, Iach a Chynhyrchiol. Yr oedd y rhan fwyaf o'r staff yn dal i gyflwyno gwasanaethau rheng-flaen wyneb yn wyneb, wedi'u hamddiffyn gan asesiadau risg priodol a mesurau lliniaru fel defnyddio PPE, profion llif ochrol, addasu gweithleoedd a systemau apwyntiad ar gyfer gwasanaethau.

Gofynnwyd i tua 1200 o staff ac aelodau etholedig weithio o gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac er mwyn eu hamddiffyn hwy, eu cydweithwyr a'r cyhoedd, ac i arafu lledaeniad y firws.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan gamau nesaf symud at fodel newydd a hyblyg o weithio sydd yn ein galluogi i gwrdd â'r Nodau Adfer Strategol, cefnogi'r gwaith tuag at agenda Moderneiddio'r Cyngor sydd yn y Cynllun Corfforaethol a rhoi cyfle i ddwyn mwy o bobl i'r Ganolfan Ddinesig, fydd yn ei dro yn helpu i leihau ein hól troed carbon a chefnogi canol y ddinas.

Yn sefydliadol, yr oeddem mewn sefyllfa gref i ymateb i'r pandemig a defnyddio ein staff yn hyblyg oherwydd y buddsoddiadau a wnaethom mewn technoleg dros y blynyddoedd a aeth heibio. Yr oedd y staff hefyd wedi arfer gweithio'n ystwyth. Mewn asesiad o faint oedd yn y Ganolfan Ddinesig cyn dechrau'r pandemig, yr oedd uchafswm o 400 o staff wrth ddesgiau. Yr oedd hyn yn sylweddol yn llai na'r hyn y gallai'r adeilad ddal.

Yr oedd yr adroddiad yn iawn i bwysleisio effeithiau cymudo ar newid hinsawdd, a'r manteision allai fod yn gysylltiedig ag agwedd hyblyg at weithio. Yr oedd hyn hefyd yn unol ag agwedd Gweithio o Bell Cymru Llywodraeth Cymru, oedd yn canoli ar gefnogi canol trefi a dinasoedd trwy roi lle i swyddogion y sector cyhoeddus weithio o lefydd yng nghanol trefi a dinasoedd yn agos at eu cartrefi.

Dyma oedd yr agwedd a gymerwyd i ddatblygu gwaith ar y Normal Newydd:

- Swyddogaeth Ddemocrataidd
- Technoleg
- Polisiâu cyflogaeth
- Y Ganolfan Ddinesig a defnydd y cyhoedd

Y mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn mynnu bod y cyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau. Yr oedd hyn yn golygu y byddai'n rhaid cynnal cyfarfod Cyngor gyda rhai Aelodau yn y Siambr ac eraill yn cyrchu'r cyfarfod o bell. Roed dyn rhaid darlledu'r cyfarfodydd hyn.

Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo i osod technoleg er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gweithredu fel hyn ac ymaddasu i'r ffordd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol

Yr oedd y Cabinet wedi cadarnhau adroddiad i symud eu canolfan data o'r Ganolfan Ddinesig, ar y cyd â phartneriaid SRS. Oherwydd buddsoddiadau blaenorol, yr oedd y cyngor mewn lle da i fanteisio i'r eithaf ar atebion gweithio o bell i staff ac Aelodau.

Yr oedd hynny'n gadael defnyddio'r Ganolfan Ddinesig a pholisiâu cyflogaeth fel y prif bwyntiau i benderfynu arnynt gan y Cabinet.

Bu staff Casnewydd yn wych trwy gydol y pandemig. Maent wedi dangos gwir ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus a phobl Casnewydd. Diolchodd yr Arweinydd eto i holl staff y Cyngor.

Yr ydym wedi gofyn i staff sut y maent wedi addasu i weithio'n hyblyg, a chafwyd neges glir fod hyn yn rhywbeth oedd yn cael ei werthfawrogi gan y staff ac eisiau parhau gydag ef. Gofynnodd yr adroddiad felly i'r Cabinet ystyried adolygu nifer o bolisiâu: polisi gweithio ystywyth; polisi cydbwysedd gwaith/bywyd, a pholisi teithio a chynhaliadaeth. Byddai angen adolygu trefniadau parcio yn y Ganolfan Ddinesig hefyd.

Fel cyflogwr gyda chyfrifoldeb i fargeinio ar y cyd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig ar delerau ac amodau i'r gweithlu, byddai ymgynghori llawn yn digwydd ar newid i bolisiâu cyflogaeth arfaethedig cyn ei fabwysiadu yn Fforwm Partneriaeth Cyflogaeth y Cyngor. Ymdrechodd Cyngor Dinas Casnewydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur, a rhagwelir y bydd y polisiâu uchod yn cael eu hadolygu ar y cyd gyda'r undebau llafur.

O ran y Ganolfan Ddinesig, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried argymhelliad i ganolbwyntio ar ei ddefnydd o'r adeilad ar yr Adain Ddwyreiniol. Yr oedd yn haws i'r rhan hwn o'r adeilad gymryd niferoedd uchel o staff ac yn sicrhau y byddai craidd canolog y Ganolfan Ddinesig ar gael i swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

Byddai hyn yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r rhannau oedd weddill o'r adeilad gan drydydd partion. Yr oedd yr Arweinydd eisoes wedi sôn am Weithio o Bell Cymru a'r bwriad, petai'r Cabinet yn cytuno, oedd darparu Hwb Mynediad Cyhoeddus yn y Ganolfan Ddinesig i weithwyr eraill y sector cyhoeddus ei ddefnyddio. Byddai modd i ni hefyd ddatblygu ein syniadau am Hwb Diwylliannol i'r ddinas.

Dewis cost isel a gyflwynwyd - o ran arian ac effaith carbon. Byddai'n defnyddio'r cynlluniau llawr a'r dodrefn sydd yno eisoes a hefyd yn galluogi'r Cyngor i fod yn agored i fwy o gyfleoedd yn y dyfodol. Dylai hefyd greu amgylchedd lle byddai mwy o unigolion yn bresennol yn y Ganolfan Ddinesig bob dydd (staff, Aelodau, gweithwyr eraill y sector cyhoeddus, y gymuned a'r sector wirfoddol) a dylai hyn yn ei dro gefnogi canol y ddinas.

Felly rhoddwyd y canlynol gerbron y Cabinet:

1. Derbyn model gweithredu newydd mewn egwyddor a chan ymgynghori a'r undebau llafur a staff ac adeiladu ar brofiad gweithio yn ystod Covid.
  - a. Ymgynghori ar gyflwyno polisi Gweithio o Gartref a chynnwys gweithio o gartref fel dewis gweithio hyblyg yn y polisi Cydbwysedd Bywyd/Gwaith.
  - b. Adolygu'r cynllun Amser Hyblyg a phriodoldeb hyn at y dyfodol.
  - c. Datblygu adolygiad o'r polisi Teithio a Chynhaliadaeth i adlewyrchu mwy o weithio o gartref a theithio cysylltiedig at ddibenion busnes
  - d. Adolygu'r ddarpariaeth barcio yn y Ganolfan Ddinesig i roi blaenoriaeth yn effeithiol i grwpiau allweddol

2. I gwrdd â'n Nodau Adfer Strategol a rheoli'r sefyllfa yn y cyfamser i ymdrin â Covid 19 a gweithredu'r Normal Newydd
  - a. Cytuno i ddynodi'r Adain Ddwyreiniol fel y fan yn y Ganolfan Ddinesig lle bydd y mwyaf o bobl.
  - b. Rhannu'r Adain Ddwyreiniol fesul Cyfarwyddiaeth fel y gall y staff weithio ynghyd yn eu grwpiau proffesiynol pan fyddant yn yr adeilad.
  - c. Datblygu atebion technolegol i gefnogi hyn (system archebu, etc).

Y dewis arall oedd dychwelyd i'r defnydd o'r adeilad a'r polisïau staff oedd yn bodoli cyn Covid.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Mayer fod y ffyrdd newydd o weithio wedi eu gorfodi ar y Cyngor oherwydd y pandemig, ond fod y staff wedi ymateb yn dda o fewn wythnos gyntaf y cyfnod clo. Yr oedd gweithio o bell wedi ei roi o'r neilltu yn y gorffennol, ond yr oed dyn gweithio'n dda dan yr amgylchiadau, ac fe ellid ei weld hefyd fel ffordd o arbed arian. Yr oedd yn haws cysylltu â'r ganolfan alwadau dan y trefniadau newydd, ac yr oedd modd rhoi gwell gwasanaeth i'r cyhoedd. Yr oedd hyn er lles y staff a'r cyhoedd; golygai gweithio hyblyg fod staff yn gallu gwneud gwell defnydd o'u hamser, ond yr oedd angen bod yn ofalus i gael y cydbwysedd iawn rhwng gwaith a bywyd.
- Adleisiodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet ac yr oedd yn falch o weld 710 o ymatebion i'r arolwg, a dderbyniodd lawer o ymatebion realistig adeg ymgynghori yn ogystal ag ymatebion gan gynrychiolwyr yr undebau, oedd yn bwysig ar gyfer y trefniadau hyn. Fel rhan o'r arolwg, gallai staff gyrchu hybiau fyddai'n cael eu gosod gan LIC i helpu gyda chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Yr oedd hwn yn adroddiad cadarnhaol ac yn fodel gwych, gyda chanlyniad positif.
- Soniodd y Cynghorydd Truman fod Casnewydd wedi aros ar agor i'r cyhoedd. Yr oedd yr hybiau yn wych, yn ogystal â'r help a gafodd y cyngor, gan gynnwys partneriaethau a sefydlwyd yn ystod y pandemig. Gallai Covid fod o gwmpas am nifer o flynyddoedd, ac yr oedd y model newydd hwn yn golygu fod y Cyngor yn addasu i weithio gydag ef, felly yr oedd yr Aelod Cabinet yn croesawu'r adroddiad.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at yr ystadegau yn yr adroddiad lle nad oedd 8% o ymatebwyr wedi mwynhau gweithio o gartref, ond fod 68% wedi gwneud, a 76% yn teimlo bod ganddynt fwy o hyblygrwydd yn eu horiau gwaith. Yr oedd 18% o'r staff yn edrych ymlaen at ddychwelyd i waith, ond yr oedd yn well gan 40% weithio o gartref. Yr oedd y ffordd newydd hon o weithio yn gwrando ar yr hyn yr oedd y staff eisiau wneud, sy'n golygu fod y Cyngor yn gyflogwr teg a chynhwysol. Yr oedd yr adroddiad hwn felly yn ffordd o wobrwyo'r staff am eu gwaith caled.
- Soniodd y Cynghorydd Cockeram y byddai'r ffordd newydd o weithio hefyd yn torri i lawr ar deithio, a chyfeiriodd at gyfarfodydd LIC cyn y pandemig, lle byddai cynghorwyr a swyddogion yn teithio mor bell â'r gogledd neu'r canolbrth, gyda dros ddwy awr o amser teithio. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yn rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried iechyd meddwl y gweithwyr, ac yr oedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r ddwy agwedd.
- Yr oedd y Cynghorydd Hughes hefyd yn adleisio sylwadau cydweithwyr, a diolchodd i'r staff am eu hymdrechion yn ystod y pandemig yn ogystal â sôn am agwedd bwyllog yr adroddiad hwn, megis gweithio gyda phwyllgorau craffu, cynnal arolygon staff ac ymgynghori gyda phartneriaid i ystyried model hybrid. Yr oedd hyblygrwydd y cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd hefyd yn creu cyfleoedd i bobl weithio i'r cyngor. Yr oedd ffyrdd o ddatblygu'r hwb cymunedol hefyd yn gyffrous, ac yr oedd yr Aelod Cabinet yn edrych ymlaen at weld sut y byddai'n datblygu.

Gwahoddodd y Arweinydd y Prif Weithredwr i ddweud gair am yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cabinet, o gofio cyd-destun yr adroddiad, y dylai wneud sylwadau arno a gweld sut y gweithredir arno yn y blynyddoedd i ddod. Yr oedd sylwadau'r Cabinet yn adlewyrchu'r ffaith fod yr adroddiad wedi cymryd i ystyriaeth sylwadau gan gydweithwyr o bob cwr o'r sefydliad. Yr oedd y Prif Weithredwr yn sylweddoli nad oedd un ateb yn unig yn addas i bawb, ac wrth i'r ffordd normal newydd o weithio ddatblygu, byddai'r cyngor yn newid ac yn ymaddasu i wneud yn siŵr fod y model yn iawn i'r sefydliad, a'n holl gydweithwyr ledled Casnewydd. Yr oedd y Prif

Weithredwr yn gwerthfawrogi gwaith caled cydweithwyr a'r bwrdd prosiect yn rhoi'r adroddiad at ei gilydd, ac na fu hyn yn dasg hawdd. Yr oedd hefyd yn ystyried lles y staff, a rhaid gwneud yn siwr fod y model hwn yn addas at y diben i'r Cyngor. Yr oedd y Prif Weithredwr yn dal i groesawu barn y staff, gan ddweud fod peth ffordd i fynd eto gyda'r adroddiad a bod gwaith yn mynd rhagddo, yn enwedig yng ngoleuni'r amrywiolyn Omicron newydd. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r holl staff am eu gwaith caled a'u cefnogaeth yn hyn o beth, a chymeradwyodd y cynnig i'r Cabinet.

### **Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar yr argymhellion yn yr adroddiad a chaniatáu i'r Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwasanaethau Corfforaethol ymgynghori â'r undebau llafur perthnasol a'r staff am newidiadau i'r telerau ac Amodau cyflogaeth.

## **8 Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd yr Arweinydd Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am 2020/2021. Cwblhawyd hwn gan Chris Humphrey, fel Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol o Ragfyr 2019 - Hydref 2021. Yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â chyfnod pan ddaeth Chris i'w rôl dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. Diolchodd yr Arweinydd i Chris am ei gwaith arbennig yn ystod ei chyfnod fel Cyfarwyddwr.

Yr oedd yr adroddiad yn trin y cyfnod digynsail o alw ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion. Ym Mai 2021 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru Wiriad Sicrhau oedd yn edrych yn ôl ar y cyfnod 2020/2021. Nododd y gwiriad "Gwelsom gefnogaeth seiliedig ar berthynas agored a gonest am y dewisiadau oedd ar gael i bobl oedd angen gofal a chefnogaeth a gofawyr oedd angen cefnogaeth".

Yr oedd gwasanaethau plant yn wynebu galw digynsail a chynnydd yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd, ac yr oedd y gwasanaethau oedolion yn gweithio dan bwysau sylweddol. Yr oedd y canfyddiadau yn nodi diwylliant o wella a chefnogi ei gilydd, a chydnyddiaeth o arweiniad cadarnhaol. Er bod y staff wedi eu llethu gan swm enfawr o waith achos cymhleth, yr oedd yr ysbryd ar y cyfan yn dda.

Ar draws Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion, parhawyd i gyflwyno gwasanaethau a chynnal pob lefel o ddarpariaeth ar waethaf effeithiau'r pandemig. O Gysylltwyr Cymunedol a gwasanaethau ataliol plant, i eiriolaeth, gofal cartref a chefnogaeth i deuluoedd hyd at ymyriadau statudol mewn cyfiawnder teulu a darparu gofal maeth a gofal mewn cartrefi preswyl, yr oedd cefnogaeth yn cael ei gynnal i ddinasyddion yn uniongyrchol. Yr oedd y staff yn dal i gyflwyno gwasanaethau wyneb yn wyneb yn ogytal â cheisio atebion arloesol i ymdrin â chyfyngiadau'r pandemig.

Mewn Gwasanaethau Oedolion, datblygwyd gwasanaeth estyn allan newydd, ac yr oedd prosesau'r Gwasanaeth o ran rhyddhau o'r ysbyty wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus yn Ysbyty newydd y Faenor a agorodd ym Medi 2020. Yr oedd y timau ysbyty ac Ail-alluogi yn bresennol yn yr ysbytai trwy gydol yr amser.

Mewn Gwasanaethau Plant, fe wnaethom gyflwyno tîm Ymateb Sydyn a chyflwyno 'Babi a Fi' i gefnogi teuluoedd i ofalu yn ddiogel am eu plant yng nghartref y teulu.

Yr oedd gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a chyda'n cymunedau yn allweddol i'n galluogi i barhau i gyflwyno gwasanaethau cadarnhaol. Ar bob lefel o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gynrychioli CDC ar fforymau rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys y Byrddau Diogelu, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, grŵp rhanbarthol i blant heb neb gyda hwy sy'n ceisio lloches, ac amrywiaeth o grwpiau partneriaeth a ffurfiwyd yn unswydd i ymdrin â galwadau'r pandemig a sicrhau y gellid cyflwyno gwasanaethau yn effeithiol ar draws yr holl asiantaethau.

Er bod 2020/2021 wedi gweld pwysau enfawr ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r adroddiad yn amlinellu'r ffyrdd eithriadol y llwyddodd y staff i barhau i ofalu am ein dinasyddion mwyaf bregus, a'u gwarchod. Bydd mwy o heriau yn ein disgwyl yn 2021/2022, and bydd cyfle hefyd i barhau i wella gwasanaethau.



Gwahoddodd yr Arweinydd y Cyngorydd Cockeram, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, i ddweud gair am yr Adroddiad Blynyddol.

Ychwanegodd y Cyngorydd Cockeram rai pwyntiau, gan ddweud yn gyntaf ei fod yn cytuno a sylwadau'r Arweinydd am Chris Humphrey a'r gwaith gwych a wnaeth yn ystod y pandemig a'r gwasanaeth a gyflwynwyd yn gyson gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys diogelu. Yr oedd cael yr heddlu a'r sector iechyd yn yr Hwb Diogelu yn welliant mawr. Cynllun peilot oedd hwn yng Nghasnewydd a oedd bellach yn cael ei gyflwyno ar hyd a lled Cymru yn dilyn ei lwyddiant. Hefyd, roedd y ffaith fod ysgolion yn y cyfnod clo a heb wybod beth oedd yn digwydd i'r plant yn gallu bod yn broblem.

Yr oedd gan y Cyngor 380 o blant oedd yn derbyn gofal, gyda 256 ohonynt mewn gofal maeth. Yr oedd gofalwyr maeth yn edrych ar ôl y rhan fwyaf o'r plant, ac yr oedd yr Aelod Cabinet am ddiolch iddynt am eu gwaith caled. Gwelodd y Cyngor hefyd 26 o achosion o fabwysiadu llwyddiannus yn ystod y cyfnod clo. Un o'r meysydd oedd yn peri balchder i'r Aelod Cabinet oedd cartrefi preswyl y Gwasanaethau Plant, oedd hefyd yn llwyddiannus iawn, a chawsai lythyr gan y Gweinidog yn diolch i'r Cyngor am y gwasanaeth hwn.

Cafwyd 840 o gyfeiriadau o'r ysbyty newydd yn Llanfrechfa a rhyddhawyd 475, sydd yn golygu bod 60% wedi eu harbed rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Yr oedd hefyd Wasanaeth Ail-alluogi Dementia newydd oedd yn gwneud yn dda.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am y cyllid yr oedd awdurdodau lleol yn dibynnu arno. Aeth yr adroddiad hefyd i'r pwyllgor craffu a derbyn sylwadau cadarnhaol. Yr oedd tanwariant, ond hynny oherwydd nad oeddem yn y byd go-iawn oherwydd effaith covid.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r staff a fu'n rhagorol, ond a oedd hefyd wedi blino, ac yr oedd problem gyffredinol gyda staffio ledled Cymru. Teimlai'r Aelod Cabinet fod angen adroddiad rhanbarthol ar sut i gynyddu staffio, a gofynnodd i Goleg Gwent a cholegau eraill ddarparu bwrsariaethau i annog pobl i fynd i'r proffesiwn a gweithio i'r cyngor. Yn olaf, yr oedd yr Aelod Cabinet yn ystyried fod hwn, ar y cyfan, yn adroddiad cadarnhaol.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol, Sally Jenkins i ddweud gair. Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei diolchiadau i Chris Humphrey, yn ogystal â diolch i'r staff oherwydd eu bod dan bwysau enfawr. Yr oedd y staff wedi blino, a'r ysbryd yn isel, ond yr oedd y negeseuon cadarnhaol ac ymrwymiad y staff i ddal i weithio i Gasnewydd trwy gadw myfyrwyr yn deyrnged i'r gefnogaeth a gynigir iddynt gan y Cyngor. Yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â'r flwyddyn 2021 ond y teimlad oedd ein bod wedi mynd yn syth i gyfnod heriol arall yn 2022.

Yn olaf, manteisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y cyfle i ddiolch i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ynghyd ag aelodau etholedig eraill am eu cefnogaeth tra bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i gyflwyno gwasanaethau. Yng ngoleuni amrywiolyn Omicron, yr oedd pryder am sut y byddai'r staff yn parhau i weithio, ond byddai hyn yn cael ei fonitro ac fe wnâi'r Gwasanaethau Cymdeithasol bopeth i sicrhau'r gwasanaeth gorau gyda'r gefnogaeth a gynigir.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei chyfraniad aruthrol, a gwahoddodd sylwadau gan Aelodau'r Cabinet.

Ychwanegodd y Cyngorydd Hughes, fel gweithiwr cymdeithasol, ei bod yn dda clywed canmol i'r staff, o gofio'r amodau gwaith, o dan yr amodau sydd mor heriol.

#### **Penderfyniad:**

Derbyniodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am 2020/21.

## **9 Adroddiad Diweddar Covid**

Soniodd yr Arweinydd, dros yr ychydig wythnosau diwethaf, yr ymddangosodd amrywiolyn Omicron yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

Yr oedd nifer yr achosion positif am yr amrywiolyn newydd yn is na'r rhai yn Lloegr a'r Alban, ond mater o amser yn unig fyddai cyn i ni weld mwy o gynnydd ac achosion yng Nghasnewydd.

Yr oedd y cyfnod hwn yn amser i lawer yng Nghasnewydd ddod ynghyd gyda ffrindiau, cydweithwyr a theuluoedd i ddatlu cyfnod yr ŵyl, yn enwedig wedi'r amser caled y buom drwyddo. Yr oedd yn bwysig cofio fod cyfyngiadau yn dal ar waith: gwisgo mygydau mewn siopau, cludiant cyhoeddus a manau cyhoeddus eraill, cadw pellter cymdeithasol, a thrwyddedau covid wrth gymdeithasu mewn manau ledled Casnewydd.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r sawl oedd yn fregus yng Nghasnewydd ac yn fwy agored i risg Covid. Yr oedd y system iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei hymestyn fwy fyth wrth i ni weld mwy o alw am y gwasanaethau hyn.

Y neges dros yr ŵyl oedd i bobl fod yn synhwyrol am yr hyn yr oeddent yn wneud a meddwl am eraill wrth gymdeithasu gyda ffrindiau a theuluoedd; cymryd profion covid rheolaidd, a hunan-ynysu os profant yn bositif am covid.

Yn olaf, yr oedd yn bwysig i bobl gymryd y brechiad atgyfnerthu pan gânt eu llythyr gan y GIG, neu i'r sawl sydd heb eu brechu wneud hynny er mwyn amddiffyn eu hunain a'r rhai o'u cwmpas.

Yr oedd gwasanaethau rheng-flaen y Cyngor yn dal ar waith, a lle bo modd, yr oedd y staff yn gweithio o gartref yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru. Yr oedd hyn yn wir hefyd am aelodau etholedig y Cyngor, gyda swyddogaethau democrataidd yn digwydd yn rhithiol.

Yr oedd adroddiad y Normal Newydd a gyflwynwyd i'r Cabinet heddiw yn amlinellu'r agwedd a gymerid yn y dyfodol gan y Cyngor i foderneiddio gwasanaethau, gan adeiladu ar y manteision a ddangoswyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i wasanaethau a staff y Cyngor weithio'n hyblyg.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cefnogi gwerth £51 miliwn i'r trigolion mwyaf bregus a difreintiedig yng Nghymru, gyda phob aelwyd gymwys yn gallu hawlio £100 i gefnogi taliadau tanwydd y gaeaf. Anfonwyd llythyrau at bob aelwyd oedd yn derbyn Gostyngiad Treth Cyngor yn dweud sut i wneud cais ar-lein, ond fod dulliau eraill os nad oedd modd iddynt gyrchu cyfrifiadur neu ddyfais ddigidol. Yr oedd yn bwysig i aelwydydd cymwys fanteisio ar y cynnig hwn, a rhannu'r neges gyda'u cymdogion, teuluoedd a chyfeillion a all fod yn gymwys.

Trwy gydol tymor yr hydref, yr oedd y gwasanaethau addysg ac ysgolion yn dal i weithredu fel arfer ar waethaf yr heriau a wynebai ysgolion gydag achosion Covid. Yr oedd y gwasanaethau addysg ac ysgolion yn cydweithio trwy fonitro presenoldeb a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y disgyblion mwyaf bregus a'u rhieni yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu.

Yr oedd yr ysgolion, y Gwasanaeth Lles Addysg a Llywodraeth Cymru yn cadw golwg fanwl ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod tymor yr hydref. Dangosodd hyn cyfraddau presenoldeb is na'r disgwyl am fisoedd Medi a Hydref 2021.

	<b>Ysgolion Cynradd</b>	<b>Ysgolion Uwchradd</b>	<b>Ysgolion Arbennig</b>
Medi / Hydref 2021	91.6%	88.2%	87.6%

Er nad oedd disgwyl i ysgolion osod targedau presenoldeb nac adrodd am ddata presenoldeb at ddibenion cenedlaethol, yr oedd yn hanfodol i ysgolion gadw cofnod cywir o bresenoldeb disgyblion at ddibenion monitro a gwerthuso. Gofynnwyd i ysgolion osod eu targedau mewnol eu hunain am bresenoldeb a rhannu'r rhain gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg i helpu i gyfarwyddo gwaith y Swyddogion Lles Addysg. Mae data presenoldeb misol am bob ysgol yn cael eu casglu, eu dadansoddi a'u holrhain yn erbyn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r data

wedyn yn cael ei anfon at bob ysgol yn fisol. Yr oedd yn hanfodol i ddisgyblion gynnal yr arfer o fynd i'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon. Yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymwneud â disgyblion nad oedd yn mynychu'n rheolaidd, a dod i gysylltiad â'u teuluoedd. Yr oedd yn cydnabod y gall rhieni fod angen mwy o sicrwydd fod ysgolion yn llefydd diogel i'w plant. Lle nad oedd ysgolion yn llwyddo i ymwneud â rhieni, neu lle mae absenoldeb heb awdurdod yn digwydd yn gyson, gall ysgolion gyfeirio'r disgybl a'i deulu at y Gwasanaeth Lles Addysg.

Ym mis Tachwedd 2021, bu Swyddogion Lles Addysg mewn 75 o gyfarfodydd ysgol, a derbyn 93 cyfeiriad yng nghyswllt absenoldeb cyson disgyblion unigol. Yr oedd cyfeiriad presenoldeb yn cael ei ddilyn naill ai gan alwad ffôn neu e-bost at y rhiant neu gydag ymweliad â'r cartref. Ym mis Tachwedd 2021, gwnaeth Swyddogion Lles Addysg 189 o ymweliadau cartref. Yn 109 o'r achosion hyn, bu'r Swyddogion Lles Addysg yn ymwneud a'r rhieni a'r disgyblion i drafod y rhesymau dros ddiffyg presenoldeb. Dyma oedd y prif resymau dros absenoldeb cyson yn y flwyddyn academaidd hyd yma:

Achosion positif Covid 19

Hunan-ynysu oherwydd Covid 19

Pryder am Covid 19

Salwch arall

Problemau iechyd meddwl cysylltiedig â'r plentyn neu'r teulu

Gwyliau teuluol yn ystod y tymor

Byddai datblygiadau o bwys yng nghanol y ddinas megis y gwesty newydd ac Arcêd y Farchnad yn agor yn y Flwyddyn Newydd, ac yn rhoi cyfleoedd newydd i'r ddinas a'r trigolion yn dilyn cyfnod heriol iawn i fusnesau.

Yr oedd y Cyngor yn falch o dderbyn gwobr am y sefydliad mwyaf eithriadol yn y Gwobrau Amgylcheddol cenedlaethol fis diwethaf. Yr oedd y wobwr yn cydnabod y cynnydd a wnaeth y Cyngor tuag at ei nod o fod yn sero net niwtral o ran carbon erbyn 2030.

Ynghyd â'r wobwr hon, pasiodd y Cyngor gynnig yn datgan argyfwng ecolegol a hinsawdd i ddinas Casnewydd. Yr oedd hyn yn cydnabod y gwaith yr oedd yn rhaid i'r Cyngor, ei bartneriaid, trigolion a busnesau wneud i ddad-garboneidido. Dyma pam ei bod yn bwysig i bobl gyfrannu tuag at ein hymgyngoriad ar ein Cynllun Newid Hinsawdd fyddai'n cael ei lansio y flwyddyn nesaf.

Yr oedd y Cyngor yn falch hefyd o weld cwblhau'r llwybr Teithio Llesol yn Lliswerry, gan wella mynediad i feiciau a cherddwyr yn yr ardal.

Yr oedd gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor, yr heddlu a phartneriaid eraill wedi helpu i lywio pobl ifainc draw o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnig gweithgareddau eraill a chefnogaeth diogelu.

Y mis hwn, lansiodd y Cyngor ei Gyllideb Gyfranogol newydd gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i gefnogi grwpiau a mentrau lleol i wella eu hardaloedd a chefnogi'r cymunedau oedd yn byw yn yr ardaloedd hynny. Y mae'r agwedd hon yn rhoi grym i'r trigolion i benderfynu pa brosiectau fyddai'n cael arian i gyflwyno'r prosiectau hynny, ac yn gyfle i gymunedau wella bywydau a phrofiadau'r sawl o'u cwmpas.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Yr oedd y Cyngorydd Davies eisiau canolbwyntio ar adfer strategol yng nghyswllt lefelau presenoldeb mewn ysgolion, a pharhau i gefnogi teuluoedd lle'r oedd presenoldeb yn isel. Yr oedd ysgolion yn ganolbwynt i'r gymuned leol, ac yn cefnogi teuluoedd trwy gyllid grantiau i'w helpu trwy'r argyfwng. Yr oedd hyn hefyd yn rhoi pwysau ar staff, a chanmolodd yr Aelod Cabinet y staff am eu gwaith caled a'u canolbwynt ar blant ysgol. Yr oedd yr holl staff addysg, gan gynnwys swyddogion, athrawon a gweithwyr lles addysg yn haeddu'r gwyliau

dros y Nadolig, iddynt fod yn barod ar gyfer y tymor newydd a'r hyn fyddai'n eu hwynebu o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd.

- Ateggodd y Cynghorydd Truman yr angen i fod yn ofalus dros y Nadolig gyda'ch anwyliaid, a gwranddo ar gyngor yr arbenigwyr iechyd. Hefyd, yr oedd y GIG wedi gweithio'n galed iawn a dylid eu canmol. Yr oedd y rhaglen o frechiadau atgyfnerthu yn mynd ymlaen yn dda yng Nghymru, gyda staff y GIG yn ateb yr her.
- Ateggodd y Cynghorydd Harvey sylwadau ei chydweithwyr. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod hithau a'i theulu yn fregus a'u bod oll yn ynysu er mwyn cael un diwrnod gyda'i gilydd. Yr oedd gwisgo mwgwd a diheintio dwylo yn rheolaidd yn hynod bwysig. Yr oedd y Gwasanaeth Addysg yn rhyfeddol, ac yn gwneud gwaith ychwanegol nad oedd yn eu swydd-ddisgrifiadau cyn i hyn oll ddigwydd. Yr oedd y Cynghorydd Harvey hefyd yn cytuno gyda'r Cynghorydd Truman am ei sylwadau am y GIG. Yn olaf, diolchodd i'r Cynghorydd S Marshall yn arbennig, oedd yn rhoi brechiadau atgyfnerthu i bobl gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ac anogodd bawb i dderbyn eu brechiadau.

#### **Penderfyniad:**

Ystyriodd a nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ac i'r Cabinet / Aelodau'r Cabinet dderbyn cyfoesiadau gan y swyddogion fel rhan o'u portffolio.

## 10 **Adroddiad Diweddarau Brexit**

Dywedodd yr Arweinydd fod blwyddyn, bron, wedi mynd heibio ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r farchnad sengl yn ffurfiol. Trwy gydol y flwyddyn, yr oedd y Cyngor wedi parhau i weld effeithiau, nid yn unig o adael yr UE ond o Covid ledled y byd wrth i economïau weld mwy o alw, a tharfau ar gyflenwadau. Yr oedd yr effeithiau hyn yn cael eu teimlo yma yng Nghasnewydd, gan ein bod yn gweld swyddi gwag ar draws pob sector, ond yn bennaf mewn adeiladu, gweithgynhyrchu, gweithgareddau llety a bwyd. Tarfwyd ar gyflenwadau bwyd a nwyddau, ac yr oedd hyn i'w weld ar silffoedd archfarchnadoedd. Yr oedd prosiectau mawr hefyd yn gweld cynnydd ym mhrisiau deunyddiau a llafur, a hyn yn ei dro yn cael effaith ar gyflwyno a chost y prosiectau. Yn olaf, yr oedd cost ynni (trydan a nwy) wedi codi, oedd yn golygu y byddai aelwydydd ar dariffau safonol a thalu-ymlaen-llaw yn gweld cynnydd yn eu costau. I aelwydydd ar incwm isel yng Nghasnewydd, byddai hyn yn cael cryn effaith ac yn rhoi mwy o bwysau ar aelwydydd bregus.

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Covid y Cabinet, yr oedd y Cyngor wedi lansio cefnogaeth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru i helpu aelwydydd cymwys i wneud cais am £100 tuag at wresogi gyda thrydan a nwy dros y gaeaf. Ym mis Tachwedd, dyfarnwyd £2.8m i Gasnewydd i'w ddsbarthu i saith corff allanol ar hyd y ddinas. Cyfarfu'r Cyngor a'r sefydliadau i'w helpu i osod i fyny a bwrw ymlaen gyda'r prosiectau dros yr wyth mis nesaf.

I ddinasyddion yr UE/EAA yn y ddinas, aeth dros chwe mis heibio ers i'r terfyn amser ddod i ben. Byddai llawer o drigolion yn y ddinas wedi derbyn naill ai statws Sefydllu Llawn neu Gyn-Sefydllu, ond yr oedd y Cyngor yn ymwybodol fod rhai trigolion yn dal i aros am benderfyniad.

Yr oedd y Cabinet eisiau ailadrodd eu cefnogaeth i ddinasyddion yr UE / AEE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd, gan fod gan bawb ran i'w chwarae i wneud Casnewydd yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Anogodd yr Arweinydd unrhyw un oedd yn dal i aros am benderfyniad neu'n cael anhawster cwblhau eu cais i gysylltu â'r Cyngor a mudiadau eraill fel Cyngor ar Bopeth.

Yr oedd Cyngor Casnewydd yn dal i weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau y gallai dinasyddion yr UE gyrchu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth oedd arnynt eu hangen.

Yr oedd y Cyngor yn parhau i arwain prosiect rhwydwaith bwyd ledled y ddinas i asesu'r galw a'r galw fyddai'n debyg o ddigwydd dros y gaeaf.

Yr oedd y Cyngor hefyd yn adolygu adnoddau a'r gallu i ymateb i angen fel y byddai'n codi, ac yn gweithio gyda GAVO i wneud trefniadau i gefnogi mwy o waith ar dlodi bwyd yn y ddinas.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn mynnu bod y cyngor yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau fel corff cyhoeddus. Cynyddodd chwyddiant i 5.1% ac yr oedd aelwydydd oedd yn gweithio hefyd yn wynebu risg. Yr oedd y Cyngor wedi darparu cludiant cyhoeddus am ddim ar hyd a lled y ddinas ym mis Rhagfyr i helpu trigolion. Er mwyn cryfhau a chefnogi cymunedau fel rhan o'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd, cyhoeddodd yr Arweinydd y byddai cyngor y ddinas yn cynyddu'r arian sydd ar gael i fanciau bwyd ledled y ddinas o £100K i ymdrin â'r heriau ac i atal pobl Casnewydd rhag gorfod penderfynu rhwng bwyta a gwresogi y gaeaf hwn.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Dywedodd y Cyngorydd D Harvey, os oedd unrhyw un mewn anhawster ariannol, iddynt gysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Jeavons fod pris tanwydd wedi codi i £1.43 a bod y cynnydd ym mhrisiau deunyddiau crai, Yswiriant Gwladol a chwyddiant oll wedi cael effaith ar hyn. Rhaid ymdrin â hyn, ac yr oedd pobl yn talu cannoedd o bunnoedd yn ychwanegol, oedd yn ormod, ac ni ddylai pobl ddisgyn i dlodi.
- Ateggodd y Cyngorydd Davies sylwadau ei chydweithwyr, a dweud mai'r gwir plaen oedd na allai rhai pobl fforddio pryd Nadolig eleni, yn ogystal â bod angen cefnogaeth ariannol. Yr oedd bron i 100 bobl yr wythnos yn gofyn am help, ac yr oedd yn frawychus fod y bobl hynny mewn trafferthion. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch fod cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gael i fanciau bwyd, am ein bod yn wynebu cyfnod digynsail, a bod Cyngor Dinas Casnewydd eisiau edrych ar ôl ei thrigolion.
- Cytunodd y Cyngorydd Cockeram fod newyddion am arian yn cael ei roi i fanciau bwyd yn gadarnhaol. Yr oedd Brexit wedi effeithio ar Gyngor Dinas Casnewydd, gyda chostau llafur a deunyddiau wedi cynyddu o 17%, fyddai'n sicr o effeithio ar y gyllideb dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.
- Dywedodd y Cyngorydd Hughes ei bod yn drist fod pobl yn dibynnu ar fanciau bwyd, a chroesawodd y gefnogaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r sawl oedd yn cefnogi banciau bwyd a dosbarthu parseli bwyd ledled Casnewydd. Yr oedd yr Arweinydd yn ddiweddar wedi ymuno ag aelodau o'i heglwys leol i ddarparu parseli bwyd, ac yr oedd yn gwneud rhywun yn wylaidd i weld pobl yn dod at ei gilydd i sicrhau bod y teuluoedd mwyaf anghenus yn gallu cael profiad cadarnhaol adeg y Nadolig, er ei bod yn drist iawn fod gwirfoddolwyr yn gorfod gwneud hyn.

#### **Penderfyniad:**

Ystyriodd a nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a bydd y Cabinet / Aelodau'r Cabinet yn derbyn cyfoesiadau gan y swyddogion fel rhan o'u portffolio.

11 **Rhaglen Waith**

Soniodd yr Arweinydd wrth gydweithwyr am yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

12 **Live Event**

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified